


Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth

# Gofal iechyd y dylai menywod ei ddisgwyl wrth gael babi



# Gwybodaeth am yr adroddiad hawdd ei ddeall



Dyma fersiwn hawdd ei ddeall o lyfryn mwy o'r enw: **Egwyddorion ar gyfer cefnogi dewisiadau menywod mewn gofal mamolaeth a gyhoeddwyd ym mis Awst 2025**.




Mae'r llyfryn hawdd ei ddeall yn cynnwys y prif bethau o'r llyfryn mwy.




Mae'r llyfryn mwy ar gael ar ein gwefan:

**www.nmc.org.uk/standards/standards-for-midwives/other-resources-for-midwives/principles-for-supporting-womens-choices-in-maternity-care/**

# Gwybodaeth am y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth

**Y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth** ydyn ni. Yr enw byr amdanom ni ydy'r **NMC**.



Ein gwaith ni ydy gwneud yn siŵr bod pob **nyrs** a **bydwraig** yn y Deyrnas Unedig a **chymdeithion nyrsio** yn Lloegr yn ddiogel i weithio.



Mae **nyrsys** yn helpu pobl sy'n sâl, wedi'u hanafu neu sydd angen gofal.



Mae **bydwragedd** yn helpu menywod i roi genedigaeth.



Mae **cymdeithion nyrsio** yn staff iechyd sy'n gweithio gyda nyrsys yn Lloegr.



Yn y llyfryn hwn, rydyn ni'n edrych ar ofal mamolaeth. Dyma'r gofal sy'n cael ei roi i fenywod:



- Pan fyddan nhw'n feichiog.



- Pan fyddan nhw'n rhoi genedigaeth.



- Ac ar ôl iddyn nhw gael babi.

# Egwyddorion gofal a chymorth



Rydyn ni eisiau gwneud yn siŵr bod menywod a'u babis yn cael y gofal gorau a mwyaf diogel.




I wneud hyn, rydyn ni wedi ysgrifennu rhai **egwyddorion**. Mae **egwyddorion** ychydig yn debyg i reolau.



Mae'r egwyddorion yn esbonio'n glir pa ofal dylai menywod ei ddisgwyl wrth gael babi.




Maen nhw hefyd yn esbonio'n glir sut dylai gwahanol bobl a sefydliadau weithio gyda'i gilydd.



Mae hyn yn golygu:

- Bydwragedd.



- Ysbytai a gwasanaethau eraill sy'n rhoi gofal i fenywod a'u babis.

nmc
Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth

- Yr NMC.



Rydyn ni wedi gweithio gyda gwahanol bobl, grwpiau a sefydliadau i greu'r egwyddorion.



# Dewisiadau menywod ar gyfer gofal mamolaeth

Mae menywod yn gallu dewis lle maen nhw'n dymuno rhoi genedigaeth.  Fel:



- Mewn ysbyty gyda bydwragedd a meddygon.




- Mewn **canolfan geni**.  Mae **canolfan geni** yn debyg i ysbyty, ond bydwragedd sydd yno.  Does dim meddygon.



- Gartref, gyda chymorth bydwraig.



Mae gan fydwragedd y sgiliau a'r hyfforddiant iawn i helpu menywod i gael babi yn ddiogel.



Mae rhai menywod yn dewis peidio â chael bydwraig gyda nhw wrth gael babi.  Enw hyn ydy **genedigaeth rydd**.



Efallai y bydd menywod sy’n cael genedigaeth rydd yn dewis rhywun arall i’w cefnogi.



Efallai na fydd y person yma wedi cael unrhyw hyfforddiant i fod yn fydwraig.



Ond bydd yn dal yn gallu rhoi cefnogaeth.  Ond does dim hawl gan y person yma roi gofal neu esgus bod yn fydwraig.




Rydyn ni'n cadw rhestr o'r bydwragedd yn y DU. **Cofrestr** ydy enw'r rhestr yma.




Dim ond pobl sydd ar ein cofrestr sy'n cael:

- Dweud eu bod yn fydwraig

a



- Rhoi gofal i fenywod beichiog fel bydwraig.




Mae modd i chi edrych ar ein cofrestr i weld a ydy rhywun yn fydwraig.

# Ein hegwyddorion




Dyma’r prif egwyddorion am y gofal dylai menywod ei ddisgwyl wrth gael babi.

## Beth dylai menywod ei ddisgwyl gan fydwragedd a’u gofal mamolaeth



Gallwch chi wneud dewisiadau am eich gofal.  Mae eich bydwraig yn gallu eich helpu chi i benderfynu beth sy’n iawn i chi.



Dylai menywod ddisgwyl pethau fel:

- Pobl yn siarad yn garedig gyda nhw.



- Cael gwybodaeth mewn ffordd sy’n hawdd ei deall.




- Cael help i wneud **cynllun geni** sy'n iawn iddyn nhw.

  Mae **cynllun geni** yn dweud beth rydych chi eisiau i ddigwydd wrth gael babi.



- Deall sut mae cysylltu gyda'u bydwraig.



- Teimlo'n siŵr eu bod nhw'n mynd i gael y cymorth maen nhw ei angen.

## Beth dylai bydwragedd ei wneud

Dylai bydwragedd wneud pethau fel:



- Cadw menywod a'u babis yn ddiogel.



- Bod yn garedig ac yn ofalgar.  Mae bydwragedd yn deall bod rhoi genedigaeth yn gallu bod yn amser ofnus



- Gwrando ar bobl ac esbonio pethau’n glir.



- Parchu dewisiadau a phenderfyniadau pobl.



- Deall a dilyn **safonau** yr NMC.

  Mae’r **safonau** yn rhestr o bethau mae’n rhaid i fydwragedd eu gwneud yn eu gwaith.  Bydd dilyn y safonau yn eu helpu i wneud eu gwaith yn dda.

## Beth dylai ysbytai a sefydliadau eraill ei wneud



Dylai ysbytai a sefydliadau eraill sy'n rhoi gofal i fenywod a'u babis wneud pethau fel:



- Gwneud yn siŵr bod bydwragedd yn dilyn safonau'r NMC.



- Gadael i fenywod ddewis lle maen nhw'n dymuno rhoi genedigaeth.



- Gwneud yn siŵr bod y bobl sy'n rhoi cymorth i fenywod yn garedig ac yn cadw menywod yn ddiogel.



- Esbonio'n glir beth ydy'r dewisiadau i'r person o ran gofal.



- Esbonio'n glir os ydy person yn dymuno cael math penodol o ofal, ond bod gwasanaeth ddim yn gallu rhoi'r gofal yna.  Mae'n rhaid i fydwragedd ddweud:



  - Pam dydy'r gwasanaeth ddim yn gallu rhoi'r gofal yna

  a




  - Pryd bydd y math yna o wasanaeth ar gael eto efallai.

## Beth dylai'r NMC ei wneud

Dylai'r NMC wneud pethau fel:



- Gwneud yn siŵr bod bydwragedd yn dilyn y safonau.




- Gwneud yn siŵr bod bydwragedd yn cael yr hyfforddiant iawn i wneud eu gwaith yn dda.



- Edrych ar unrhyw bryderon am fydwragedd sydd ddim yn cadw menywod a babis yn ddiogel.



- Gwneud yn siŵr bod pobl sydd ddim yn fydwragedd ddim yn esgus bod yn un.

## Os ydych chi'n poeni am eich gofal




Os ydych chi'n meddwl bod y person sy'n rhoi gofal i chi ddim yn fydwraig, edrychwch ar ein cofrestr:

**www.nmc.org.uk/registration/search-the-register/**




Gallwch chi gysylltu gyda'ch ysbyty agosaf hefyd.

Gallwch chi gysylltu gyda ni os ydych chi'n meddwl:



- Bod y person sy'n rhoi gofal i chi wedi gwneud rhywbeth i chi neu eich babi, a'ch bod chi ddim wedi cytuno i hynny

ac



- Eu bod yn fydwraig neu'n dweud eu bod yn fydwraig, ond eich bod chi ddim yn siŵr am hynny.




## E-bostiwch ni ar:

**registration.investigations@nmc-uk.org**

# Gwybodaeth am yr llyfryn hawdd ei ddeall

Easy Read UK
Paper, Online and Digital

Mae Easy Read UK wedi ein helpu i ysgrifennu'r llyfryn hawdd ei ddeall.

**www.easyreaduk.co.uk**

working together
K.I.N
Kirklees Involvement Network

Roedd Kirklees Involvement Network wedi gweithio gyda Easy Read UK a gwirio'r llyfryn hwn.



Mae'r lluniau yn yr llyfryn hwn wedi dod gan Photosymbols, Ing Image a'r NMC.

nmc
Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth

**Y rheoleiddiwr nyrsio a bydwreigiaeth ar gyfer Cymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Elusen gofrestredig yng Nghymru a Lloegr (1091434) ac yn yr Alban (SC038362).**

**23 Portland Place, Llundain W1B 1PZ**
**Ff 020 7637 7181**
**www.nmc.org.uk**